**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif [ ] (Cy.[ ])

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn dileu'r cyfeiriad at therapyddion lleferydd o'r diffiniad o "proffesiynolyn gofal iechyd" yn Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod therapyddion lleferydd bellach yn rhan o broffesiwn therapyddion lleferydd ac iaith, y mae adran 60(2) o Ddeddf Iechyd 1999 yn ymdrin ag ef fel proffesiwn sy'n cael ei reoleiddio drwy Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 (O.S. 2002 Rhif 254).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *[ ] 2004* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mai 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 22(1) a (2)(d) ac adran 118(7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 31 Mai 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002**

**2.** Yn Rheoliad 2(1) o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**2**) (dehongli), yn y diffiniad o "proffesiynolyn gofal iechyd", yn lle ", yn seicotherapydd plant neu'n therapydd lleferydd" rhowch "neu'n seicotherapydd plant ".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

Dyddiad

---

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol (gweler y diffiniad o "rheoliadau" yn adran 121(1) o Ddeddf 2000). Mae "Gweinidog priodol" wedi'i ddiffinio yn adran 121(1) fel y Cynulliad o ran Cymru, ac fel yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae "Cynulliad" wedi'i ddiffinio yn adran 5(b) fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) O.S. 2002/324 (Cy.37), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2622 (Cy. 254), O.S. 2002/2935 (Cy. 277), O.S. 2003/947 (Cy.128) ac O.S. 2003/1004 (Cy.144).

(**3**) 1998 p.38.

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol